# WILLIAMS, JOHN (1825 - 1904), clerigwr ac awdur

**Enw:** John Williams
**Dyddiad geni:** 1825
**Dyddiad marw:** 1904
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** William Llewelyn Davies

brodor o Sir Drefaldwyn Cafodd ei ordeinio yn 1868 gan esgob Llandaf a bu'n gurad yn Tredegar, sir Fynwy, 1868-76. Wedyn bu'n genhadwr ymhlith Cymry Llundain; ymddengys iddo fod yn llafurio ym mhlwyf S. Stephen's, Spitalfields hefyd. Dychwelodd i Gymru yn 1881 a bu'n gurad yn Newcastle (Penybont-ar-Ogwr) cyn cael ei ddewis, yn 1883, yn rheithor Penegoes, Sir Drefaldwyn. Ysgrifennodd *Cymry Llundain* (Caernarfon, c. 1867), *A Defence of the Welsh People against the Misrepresentations of their English Critics* (Caernarvon, 1869?), *The Early British Church* (London, 1877), *Notes and Narratives of ... Missionary and Ministerial Labours* (Machynlleth, 1885). Bu farw yn niwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref, 1904.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1904, 415

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 61116018

Wikidata: Q20821438

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu